Hysbysiad Prosesu Teg

Prifysgol De Cymru yw'r rheolydd data mewn perthynas â gwybodaeth a gedwir am gleifion Sefydliad Ceiropracteg Cymru (WIOC), ac mae wedi ymrwymo at ddiogelu hawliau unigolion mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd.

Mae gan Brifysgol De Cymru Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r Swyddog trwy e-bostio dataprotection@southwales.ac.uk

Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Bydd swm y wybodaeth bersonol a gasglwn yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaeth a ddefnyddir, fodd bynnag, gallai gynnwys rhai o'r eitemau canlynol, neu bob un ohonynt:

- Enw claf, cyfeiriad, manylion cyswllt, oedran, dyddiad geni, perthynas agosaf (enw, manylion cyswllt a chaniatâd i gysylltu â hwy mewn argyfwng), a manylion y meddyg teulu.
- Gwybodaeth yn ymwneud â ffordd o fyw, megis maetheg, ysmygu, cymeriant alcohol, gweithgarwch corfforol, ac arferion cysgu.
- Gwybodaeth gyfeirio.
- Manylion cyflogaeth a galwedigaeth.
- Hanes meddygol a hanes meddygol perthnasol aelodau o'r teulu.
- Meddyginiaeth ac atchwanegiadau.
- Alergeddau i gyffuriau.
- Diagram poen a gwybodaeth ar gyflwyno'r gŵyn (hanes achos), canfyddiadau archwiliadau corfforol, argraffiad clinigol, diagnosis, prognosis a chynllun rheolaeth.
- Archwiliadau pellach gan gynnwys canlyniadau (e.e. delweddu).
- Cofnod o bob ymweliad a manylion am y gofal a ddarparwyd, gan gynnwys rhaglenni adferiad.
- Holiaduron canlyniadau cleifion
- Holiaduron bodlonrwydd cleifion

Pam rydym yn casglu'r wybodaeth yma?

Mae'r wybodaeth a gesglir yn hanfodol er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu cleifion â'r gofal gorau posib.

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu?

Mae prosesu data personol cleifion WIOC yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol:

Mae'r prosesu'n hanfodol er mwyn perfformio ***cytundeb*** gyda gwrthrych y data

Wrth brosesu data personol categori arbennig mae WIOC yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol:

Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, er mwyn asesu gallu cyflogai i weithio, diagnosis meddygol, darparu ***gofal iechyd neu gymdeithasol*** neu driniaeth, neu i reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol

Sut gaiff fy ngwybodaeth bersonol ei phrosesu a phwy sydd â mynediad ati?

Bydd y prosesu o'r wybodaeth bersonol, a phwy sydd â mynediad ati, yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu esboniad o sut gaiff data cleifion ei brosesu a gan bwy. Mae dyletswydd gyfreithiol ar bawb i gadw gwybodaeth cleifion yn gyfrinachol, gan gynnwys unrhyw gwmnïau trydydd parti sydd â chytundeb gyda'r Brifysgol trwy WIOC i brosesu data ar ein rhan.

Clinig Ceiropracteg

Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir at ddibenion gofal ceiropracteg yn cael ei dogfennu mewn ffeil copi caled. Bydd y ffeil yn cael ei phrosesu a'i chyrchu gan y clinigwr dan hyfforddiant a benodir i ofalu am y claf, a staff WIOC, rhai clinigol a gweinyddol.

Mae swm cyfyngedig o wybodaeth hefyd yn cael ei storio'n ddigidol ar ein cronfa ddata reolaeth. Mae hwn yn cysylltu â'r dyddiadur apwyntiadau a thrafodion ariannol. Mae'r gronfa ddata hon ar ffurf system ddiogel sy'n defnyddio amryw ffeiliau dilyniannol wedi'u mynegrifo yn hytrach na meddalwedd cronfa ddata draddodiadol. Mae'n hygyrch o gyfrifiaduron penodol wedi'u diogelu â chyfrinair o fewn clinig WIOC yn unig, ac aelodau o staff awdurdodedig yw'r unig rai â mynediad ati gan ddefnyddio manylion mewngofnodi unigol. Mae'r feddalwedd yn creu copi wrth gefn ar weinydd penodol ar gampws y Brifysgol, a chaiff ei reoli a'i diogelu gan dîm o arbenigwyr TG.

Un o'r holiaduron a gwblheir gan gleifion ceiropracteg yw offeryn mesur canlyniadau cleifion "Ymateb i Ofal". Caiff y wybodaeth a roddwch ar y ffurflenni hyn ei ychwanegu at raglen ar y we gan staff gweinyddol WIOC, ac mae'r canlyniadau yn ein helpu i fonitro cynnydd cleifion. Caiff y feddalwedd ei reoli'n allanol, fodd bynnag, yr unig fanylion a ddefnyddir i adnabod claf yw rhif unigryw'r claf gyda WIOC, eu llythrennau cyntaf a'u dyddiad geni, a gan na fod gan y cwmni allanol fynediad at ein gwybodaeth ar gleifion, ni allant adnabod cleifion o'r wybodaeth a ddarparwn. Mae pob cyfrifiadur a ddefnyddir ar gyfer mewnbynnu data wedi'u diogelu â chyfrinair.

Pelydr-X

Mae pob pelydr-x angen atgyfeiriad gan ddarparwr gofal iechyd cymwys a phriodol, wedi derbyn yr atgyfeiriad hwn, caiff y ffurflenni hyn eu prosesu gan staff gweinyddol WIOC, radiograffydd WIOC, ac unrhyw glinigwyr dan hyfforddiant sy'n gweithio ochr yn ochr â'r radiograffydd yn ystod y sesiwn yn y clinig. Unwaith i'r delweddau gael eu dilysu, cânt eu huwchlwytho ynghyd â'r ffurflen gyfeirio at borth diogel at ddibenion adrodd. Pan fydd yr adroddiad yn barod, caiff ei lawrlwytho o'r un porth gan y staff gweinyddol a'i storio'n ddiogel tan i gleifion WIOC ei gasglu, neu ei anfon trwy ddosbarthiad a gofnodwyd at yr atgyfeiriwr os ydyw'n allanol i'r Brifysgol.

Y cwmni a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar y pelydrau-x yw Professional Radiology Outcomes PTY Ltd. Mae'r cwmni wedi ein sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â GDPR. Caiff data cleifion ei uwchlwytho'n dameidiog a'i amgryptio'n ddiogel cyn cael ei drosglwyddo i'w gweinydd diogel a gynhelir mewn partneriaeth â Microsoft Azure. Wedi cyrraedd y gweinydd, caiff y data ei ailadeiladu, ei diogelu gyda chopi wrth gefn yn cael ei greu gan ddefnyddio'r muriau cadarn gorau ar gael. Pan fydd y tîm gweinyddol yn mewngofnodi'n ddiogel i weld y delweddau, ffurflenni cyfeirio a/neu adroddiadau, mae'r cysylltiad wedi'i diogelu gan Warchodaeth SSL.

Mae hefyd rhai cwmnïau trydydd parti â chytundebau gyda'r Brifysgol a allai gael mynediad at y delweddau, megis cynghorwyr diogelwch pelydriad a pheirianwyr arbenigol, fodd bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol ar bob un ohonynt yn ymwneud â chyfrinachedd.

DXA

Mae pob sgan DXA angen atgyfeiriad gan ddarparwr gofal iechyd cymwys a phriodol, wedi derbyn yr atgyfeiriad hwn, caiff y ffurflenni hyn eu prosesu gan staff gweinyddol WIOC, a gweithredwr DXA WIOC.

Unwaith i'r delweddau a'r adroddiadau gael eu dilysu, cânt eu storio'n ddiogel yn ffeil y claf ar gyfer cleifion WIOC, neu eu hanfon trwy ddosbarthiad a gofnodwyd at yr atgyfeiriwr os ydyw'n allanol i WIOC. Gyda chaniatâd cleifion, mae copïau hefyd yn cael eu hanfon at feddyg teulu'r claf.

O bryd i'w gilydd, a lle mae cyfiawnhad clinigol, caiff y delweddau ac adroddiadau eu hanfon yn ddiogel at arbenigwr dwysedd mwynau'r esgyrn yn Ysbyty Llandochau am 2il farn.

Mae hefyd rhai cwmnïau trydydd parti â chytundebau gyda'r Brifysgol a allai gael mynediad at y delweddau, megis cynghorwyr diogelwch pelydriad a pheirianwyr arbenigol, fodd bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol ar bob un ohonynt yn ymwneud â chyfrinachedd.

Uwchsain (Gan gynnwys Therapi Siocdon, Pigiadau dan arweiniad/heb arweiniad a Gwasanaeth Uwchsain Amcangyfrif Canran Braster y Corff)

Heblaw am y gwasanaeth i fesur canran braster y corff, mae pob gwasanaeth sy'n ymwneud ag uwchsain angen atgyfeiriad gan ddarparwr gofal iechyd cymwys a phriodol. Wedi derbyn yr atgyfeiriad hwn, caiff y ffurflenni hyn eu prosesu gan staff gweinyddol WIOC, a staff clinigol WIOC (Uwchsain).

Unwaith i'r delweddau a'r adroddiadau gael eu dilysu, cânt eu storio'n ddiogel yn ffeil y claf ar gyfer cleifion WIOC, neu eu hanfon trwy ddosbarthiad a gofnodwyd at yr atgyfeiriwr os ydyw'n allanol i WIOC.

Mae hefyd rhai cwmnïau trydydd parti â chytundebau gyda'r Brifysgol a allai gael mynediad at y delweddau, megis peirianwyr arbenigol, fodd bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol ar bob un ohonynt yn ymwneud â chyfrinachedd.

Diogelwch data

Mae cyfraith Diogelu Data yn gofyn ein bod yn cadw gwybodaeth cleifion yn ddiogel. Golyga hynny y bydd cyfrinachedd yn cael ei barchu ar bob adeg ac y bydd mesurau priodol yn cael eu cymryd i atal mynediad neu ddatgeliad anawdurdodedig.

Aelodau o staff a chlinigwyr dan hyfforddiant sydd angen mynediad at rannau perthnasol o'ch gwybodaeth neu'ch holl wybodaeth bydd yr unig rai â chaniatâd i wneud hynny. Bydd gwybodaeth amdanoch ar ffurf electronig yn destun cyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra bydd ffeiliau papur yn cael eu cadw mewn mannau diogel gyda mynediad rheoledig (cymerwch olwg ar gadw a storio data).

Defnyddio data at ddibenion archwilio, addysgu ac ymchwil

Gan fod ein clinig yn rhan ganolog o sefydliad addysg, mae'n ddefnyddiol iawn i ni ddefnyddio cofnodion cleifion at ddibenion addysgu, ymchwil ac archwilio. Bydd hyn yn digwydd dim ond os yw'r claf wedi rhoi caniatâd penodol i ni ddefnyddio'u gwybodaeth yn y modd hwn, a bydd yn cael ei gyflwyno'n ddienw ar bob adeg.

Cadw a storio data

Rhaid cadw'r holl ddata am gleifion WIOC am o leiaf 8 mlynedd o ddyddiad yr apwyntiad diwethaf, yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Mae lle caiff y wybodaeth ei storio a phwy sydd â mynediad ato yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth, gweld y manylion isod:

Clinig Ceiropracteg

Caiff cofnodion cleifion cyfredol eu storio yn yr ystafell cofnodion cleifion sydd â mynediad cyfyngedig i staff WIOC a chlinigwyr dan hyfforddiant a chaiff ei chloi ar bob adeg pan nad yw'n cael ei defnyddio. Caiff cofnodion cleifion wedi'u harchifo eu storio mewn ystafell ddiogel, benodol, sydd â mynediad cyfyngedig i staff WIOC yn unig. Ar ôl 8 mlynedd, mae staff gweinyddol WIOC yn dinistrio cofnodion cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol a argymhellir ar gyfer gwybodaeth sensitif. Ar hyn o bryd, cânt eu dinistrio'n fewnol, fodd bynnag efallai byddwn yn cytundebu trydydd parti i ymgymryd â'r dasg hon ar ein rhan yn y dyfodol. Mae'r broses hon yn cael ei wneud ar y safle gyda staff WIOC yn goruchwylio'r broses.

Pelydr-X

Mae'r holl ddelweddau pelydr-x a dynnir yn WIOC yn aros ar system ddigidol pelydrau-x am gyfnod o 2 flynedd, ac mae copïau wrth gefn yn cael eu creu i'w storio'n ddiogel yn yr archif pelydrau-x, lle caiff y delweddau eu cadw am gyfnod amhenodol. Mae'r archif wedi'i diogelu â chyfrinair ac aelodau penodol o staff sydd â mynediad ati. Caiff yr holl ddelweddau pelydr-x, adroddiadau a ffurflenni atgyfeirio eu storio ar borth Professional Radiology Outcomes PTY Ltd (edrychwch ar y wybodaeth sydd ar gael ar dudalen 2).

Ar gyfer cleifion WIOC, mae CD o ddelweddau pelydr-x yn cael eu storio ar ffeil y claf ynghyd ag unrhyw waith papur perthnasol tan i'r ffeil gael ei ddinistrio (8 mlynedd ar ôl yr apwyntiad diwethaf) pan fyddant yn cael eu dinistrio ynghyd â gweddill cofnodion y claf. Rhaid defnyddio cwmni trydydd parti arbenigol i ddinistrio copïau caled o ffilmiau pelydr-x. Erbyn hyn mae mwyafrif y delweddau pelydr-x ar ffurf ddigidol, delweddau hŷn yn unig sydd ar ffilm.

Ar gyfer cleifion a atgyfeirir at WIOC am belydr-x gan ymarferwr gofal iechyd allanol, caiff CD o'r delweddau ei anfon at yr atgyfeiriwr trwy ddosbarthiad a gofnodwyd ynghyd â'r adroddiad. Bydd y trefniadau cadw a storio unrhyw ddelweddau pelydr-x yn cyd-fynd â pholisi a gweithdrefnau eich atgyfeiriwr a dylid trafod y rhain yn uniongyrchol â hwy.

Uwchsain (Gan gynnwys Therapi Siocdon, Pigiadau dan arweiniad/heb arweiniad a Gwasanaeth Uwchsain Amcangyfrif Canran Braster y Corff)

Caiff yr holl ddelweddau uwchsain a dynnir yn WIOC eu cadw ar yriant caled y peiriant uwchsain penodol am gyfnod o 12 mis, a bydd copïau wrth gefn yn cael eu creu a'u rhoi ar yriant caled allanol i'w cadw'n ddiogel. Caiff y delweddau eu cadw ar y gyriant caled allanol am gyfnod o 8 mlynedd, cyn cael eu dileu'n barhaol ynghyd ag unrhyw waith papur cysylltiedig.

Ar gyfer cleifion WIOC, caiff unrhyw adroddiadau yn ymwneud â sganiau uwchsain, therapi siocdon, neu bigiadau eu storio yn ffeil y claf tan i'r ffeil gael ei ddinistrio (8 mlynedd ar ôl yr apwyntiad diwethaf) pan fyddant yn cael eu dinistrio gyda gweddill cofnodion y claf.

Ar gyfer cleifion a atgyfeirir at WIOC am uwchsain, therapi siocdon neu bigiadau gan ymarferwr gofal iechyd allanol, caiff yr adroddiad a/neu unrhyw waith papur cysylltiedig eu hanfon yn uniongyrchol at yr atgyfeiriwr trwy ddosbarthiad a gofnodwyd. Bydd y trefniadau cadw a storio unrhyw adroddiadau yn ymwneud ag uwchsain, therapi siocdon neu bigiadau yn cyd-fynd â pholisi a gweithdrefnau yr atgyfeiriwr a dylid trafod y rhain yn uniongyrchol â hwy.

Caiff dyddiaduron y clinig a ffurflenni atgyfeirio allanol eu storio'n ddiogel a staff awdurdodedig yn unig sydd â mynediad atynt, cânt eu dinistrio yn unol â deddfwriaeth gyfredol, gan sicrhau diogelwch gwybodaeth bersonol sensitif.

DXA

Mae unrhyw sganiau DXA a wneir yn WIOC yn aros ar yriant caled y sganiwr tan iddynt gael eu dileu yn unol ag amserlen gadw WIOC o 8 mlynedd. Fodd bynnag, os yw claf wedi cael sganiau dilynol ychwanegol, caiff yr holl ddelweddau eu cadw tan fod y claf heb fynychu am o leiaf 8 mlynedd. Caiff copïau wrth gefn eu creu o'r holl ddelweddau ac adroddiadau a'u storio'n ddiogel ar yriant caled allanol, caiff y rhain hefyd eu storio am gyfnod o 8 mlynedd, cyn cael eu dileu'n barhaol ynghyd ag unrhyw waith papur cysylltiedig.

Ar gyfer cleifion WIOC, caiff unrhyw ddelweddau DXA ac adroddiadau cysylltiedig eu storio yn ffeil y claf tan i'r ffeil gael ei ddinistrio (8 mlynedd ar ôl yr apwyntiad diwethaf) pan fyddant yn cael eu dinistrio gyda gweddill cofnodion y claf.

Ar gyfer cleifion a atgyfeirir at WIOC am DXA gan ymarferwr gofal iechyd allanol, caiff y delweddau DXA a'r adroddiad cysylltiedig eu hanfon yn uniongyrchol at yr atgyfeiriwr trwy ddosbarthiad a gofnodwyd. Bydd y trefniadau cadw a storio unrhyw ddelweddau a gwaith papur cysylltiedig yn cyd-fynd â pholisi a gweithdrefnau yr atgyfeiriwr a dylid trafod y rhain yn uniongyrchol â hwy.

Gyda chaniatâd cleifion, mae copïau o ddelweddau DXA a gwaith papur cysylltiedig hefyd yn cael eu hanfon at feddyg teulu'r claf. Caiff unrhyw gopïau a anfonir at y meddyg teulu eu storio yn unol â'u polisïau a gweithdrefnau hwy.

Caiff dyddiaduron y clinig a ffurflenni atgyfeirio allanol eu storio'n ddiogel a staff awdurdodedig yn unig sydd â mynediad atynt, cânt eu dinistrio yn unol â deddfwriaeth gyfredol, gan sicrhau diogelwch gwybodaeth bersonol sensitif.

Hawliau cleifion

Mae gan gleifion yr hawl i gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol eu hunain, i wrthwynebu i'r prosesu o'u data personol, i gywiro, gyfyngu neu allforio eu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, yn unol â deddfwriaeth, rhaid i WIOC gadw gwybodaeth cleifion am o leiaf 8 mlynedd o ddyddiad yr apwyntiad diwethaf, felly ni ellir ei dileu. Dylid hefyd nodi bod rhaid i WIOC brosesu gwybodaeth bersonol cleifion er mwyn darparu gofal i gleifion, felly byddai rhaid stopio gofal claf pe byddai'r claf yn gofyn bod eu gwybodaeth ddim yn cael ei brosesu bellach.

Ewch i dudalennau Diogelu Data y Brifysgol am ragor o wybodaeth am hawliau cleifion.

Dylid anfon unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol
Prifysgol De Cymru
Pontypridd
CF37 1DL

E-bost: dataprotection@southwales.ac.uk

Os ydych yn anfodlon gyda sut y proseswyd eich data personol gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y lle cyntaf, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
www.ico.org.uk

Rheoli Fersiynau:

Drafftiwyd: Mai 2018	Awdur: Stephanie Davey	Adolygiad: Medi 2018